# ROBERTS, ELIS (bu farw 1789), cowper, baledwr, ac anterliwtiwr

**Enw:** Elis Roberts
**Dyddiad marw:** 1789
**Priod:** Ellen Roberts
**Priod:** Grace Roberts
**Priod:** Elizabeth Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cowper, baledwr, ac anterliwtiwr
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
**Awdur:** Gruffydd Glyn Evans

O blwyf Llanddoged ger Llanrwst. Ni wyddys fan na blwyddyn ei eni; o Feirion hwyrach y daeth i Landdoged. Yng nghofrestrau plwyf Llanddoged ceir cyfeiriad pendant at ' Ellis Roberts Cooper and Elizabeth his Wife' o dan 1753. Ni ellir bod yn sicr mai yr un yw'r ' Ellis Robert and Ellen his wife' y cofnodir bedyddio plant iddynt rhwng 1742 a 1748. O 1765 Grace yw enw gwraig Elis Roberts. Dan 1 Rhagfyr 1789 cawn ' Ellis Roberts was buried.' Mewn cerdd ' i ofun troull Bach,' 1767 (Cwrtmawr MS. 46), cyfeiria Elis at ei deulu, ei dlodi, ac, yn hanner edifeiriol, at ei oferedd. O'i waith, erys baledi (gweler J. H. Davies, *Bibliog. of Welsh Ballads*), anterliwtiau, a chyfres o naw 'llythyr' (e.e. ' *Difrifol fyfyrdod ar Farwolaeth, sef y Pumed Llythyr Ystyriol am Wellhad buchedd y Ddaeirol Bererindod ... gan Elis Roberts o Llanddoged Prydydd a Chowper*') - gweler o dan Roberts, Edward. Y mae o leiaf naw o'i anterliwtiau ar gael: (*a*) mewn llawysgrif - ' Argulus,' cyfansoddwyd c. 1756; ' Jeils,' c. 1757; ' Oliffernes a Jiwdath,' 1766; ' Tair Rhan Oes Dyn,' cyn 1771; ac anterliwt olaf, 1789; (*b*) yn argraffedig - *Gras a Natur*, 1769; *Y Ddau Gyfamod*, 1777; *Pedwar Chwarter y Flwyddyn*, cyfansoddwyd 1787; *Cristion a Drygddyn*, 1788. Fel anterliwtiwr yr oedd mor doreithiog a hysbys â ' Twm o'r Nant.' Y mae ei chwaraeon cyntaf yn ddifyr a llawn o'r serthedd traddodiadol. Dan gymhelliad crefyddol gorlwythodd ei anterliwtiau olaf â moesegu traethodol. Er ei hoffter o efengyleiddio yn ei ddramâu, yr oedd yn elyn i'r Methodistiaid. Dengys ei weithiau ddiffyg crebwyll fel prydydd a deuolrwydd fel person. Hysbys yw cyfeiriadau difriol Goronwy Owen (yn ei lythyrau) ato; gweler hefyd *Morris Letters*, i, 330.

## Awdur

**Gruffydd Glyn Evans**

## Ffynonellau


Cofrestrau plwyf Llanddoged

ymchwil bersonol


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Elis Roberts

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 62972124

Wikidata: Q18913097


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu